Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

18.06.26

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION yn rhithiol drwy 'Teams' ar **Ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2026** am **4.30yh** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol
3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 20 Tachwedd 2025 *(Atodiad A)*
4. Materion yn codi o'r Cofnodion
5. Diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor – Alldro 25/26
6. Diweddariad ar sefyllfa Balansau Ysgolion ar 31/03/26
   - Ceredigion *(Atodiad B)*
   - Data Cenedlaethol Dros Dro
7. Gwrthdaro yn y Dwyrain Canol – Ystyriaethau Cyllidol
8. Adroddiad Cenedlaethol Estyn - Cymorth awdurdodau lleol i ysgolion i reoli eu cyllidebau
9. Newidiadau i Reoliadau Cyllido Ysgolion (yn dod i rym Ebrill 2027) *(Atodiad C)*
10. Unrhyw Fater Arall
11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS BUDGET FORUM will be held remotely via 'Teams' on **Tuesday, 23 June 2026** at **4.30pm** for the transaction of the following business:

1. Apologies
2. Disclosure of personal interest
3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 20 November 2025 *(Appendix A)*
4. Matters arising from the Minutes
5. Update on Council wide financial position – 25/26 Outturn
6. Update on School Balances position as at 31/03/26
   - Ceredigion *(Appendix B)*
   - Provisional National Data
7. Middle East Conflict – Financial Considerations
8. Estyn National Report - Thematic Report - LA Support for school budgets
9. Changes to School Finance Regulations (coming into effect April 2027) *(Appendix C)*
10. Any Other Business
11. Date of Next Meeting

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer: Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Ceredigion Schools Budget Forum

**Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Iau, 20 Tachwedd 2025**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth; y Cynghorydd Chris James, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau; Carys Morgan, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Carys Fowles, Rheolwr Cyllid: Ysgolion a Gofal Cwsmer a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.24pm – 4.54pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   i. Ymddiheurodd Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
   ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth am ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.
   iii. Ymddiheurodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill y Cyngor.

2. **Datgelu buddiant personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 5 Rhagfyr 2024**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2024 yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol**
   Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol, gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:
   - Sefyllfa Ch2 y flwyddyn – sefyllfa o fantoli'r gyllideb refeniw ar y cyfan ac roedd dyfarniadau cyflog ac Yswiriant Gwladol Cyflogai wedi'u datrys, er hyn roedd rhai heriau ynghylch Cyllid Cyfalaf yn parhau i'w datrys.
   - Cymeradwywyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru (2026/27 i 2030/31) gan y Cyngor Llawn ar 23/10/25 - yn cynnwys rhagdybiaethau allweddol wedi'u modelu o amgylch cyflog ar gyfer y flwyddyn nesaf (2.75%) a Threth y Cyngor (wedi'i fodelu ar 7.5%) a rhagdybiaeth o £1m o arbedion gweithredol / incwm ar gyfer

2026/27 (dim cyfeiriad at ysgolion, heblaw buddsoddi i arbed ynni). Byddai'r senario yn arwain at ddiffyg o £1.4m yn y Gyllideb ar gyfer 2026/27.

- Roedd disgwyl i Setliad Dros Dro 2026/27 Llywodraeth Cymru (LlC) gael ei wneud ar 24/11/25, bellach gyda disgwyliad o lawr cyllido o 2.3% fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Y rhagdybiaeth waith bresennol oedd y byddai cyllid i dalu effaith blwyddyn lawn y dyfarniadau cyflog eleni (Athrawon a NJC 0.2%) yn ogystal â dyfarniadau cyflog wedi'u modelu y flwyddyn nesaf yn cael ei drosglwyddo'n llawn i'r Gyllideb Ysgolion Dirprwyedig; felly, byddai'r her ariannol ar lefel ysgol unigol yn cael ei yrru'n bennaf gan niferoedd disgyblion.
- Pe bai angen gwneud arbedion, byddai hyn yn cael ei drafod gydag ysgolion cyn y Nadolig.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

**6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig (Balansau Ysgolion)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid wybodaeth am falansau ysgolion. Roedd y wybodaeth yn y parth cyhoeddus a byddai'n cael ei dosbarthu i'r Fforwm yn dilyn y cyfarfod. Adroddodd fod y cronfeydd wrth gefn gwirioneddol wedi gostwng rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024, cyn cynyddu eto erbyn Ebrill 2025. Rhagwelwyd gostyngiad erbyn Ebrill 2026. Roedd pob ysgol yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn, gyda 3 ysgol mewn diffyg ym mis Ebrill 2025. Ychwanegodd fod gan Geredigion y lleiaf o ysgolion mewn diffyg ledled Cymru, oedd yn adlewyrchu ymroddiad Penaethiaid.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies ei bod yn allweddol bod Cyrff Llywodraethu'r ysgolion mewn diffyg yn gefnogol ac yn rhoi sicrwydd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa.

Esboniodd y Prif Swyddog Addysg fod gweithdy wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2024 ar gyfer penaethiaid yn unig gydag ysgolion â 30 neu lai o blant ac un arall gyda 50 neu lai o blant i drafod cyllidebau. Yn dilyn cyfarfodydd pellach a gwaith agos rhwng y gwasanaeth ysgolion a'r ysgolion, gorffennodd y rhan fwyaf o ysgolion y flwyddyn gyda chyllideb gytbwys. Er efallai na fydd y gweithdai yn cael eu cynnal y flwyddyn nesaf, byddai Swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r ysgolion a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethol.

Nododd y Rheolwr Cyllid fod yn rhaid gofyn am ganiatâd gan y Prif Swyddog Addysg a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael gan yr ysgolion mewn diffyg, ac roedd cynllun adfer wedi'i roi ar waith o ganlyniad.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies ei bod yn allweddol bod ysgolion yn cyfathrebu gyda'r Swyddogion os nad oedd modd cyflawni'r cynllun adfer.

Mewn ymateb i ymholiad gan Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau yn ymwneud â diweddariad ariannol a gafodd yn ddiweddar, ac y byddai'r cyllid fformiwla yn cael ei leihau, dywedodd y Rheolwr Cyllid

y byddai'n cadarnhau’r sefyllfa gydag ef yn dilyn y cyfarfod. Eglurodd, gan mai'r nod oedd ariannu'r cynnydd mewn cyflog, dylai cyllid fod yn debyg, oni bai bod newidiadau sylweddol yn nifer y disgyblion neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol.

Dywedodd Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard fod cyllid yr ysgol wedi bod yn gymharol iach, fodd bynnag, roedd cyllid yn dynn ar y cyfan. Ychwanegodd fod ailstrwythuro wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar, ac roedden nhw'n dibynnu fwyfwy ar ymdrech ac ewyllys da staff.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod yr holl benaethiaid yn adleisio’r pryder, ac roedd y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael yn ymwybodol o hyn. Mewn perthynas â'r cyhoeddiad o £8.2m o gyllid a gyhoeddwyd gan LlC i wella diwygiadau ADY, eglurodd ei bod wedi danfon neges at LlC yn gofyn am fanylion pellach. Yn ogystal, roedd LlC yn ymgynghori ar y cynigion i symud CADY i gyflog ac amodau arweinyddiaeth yn unol â'r argymhelliad o bumed adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ar hyn o bryd.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

**7. Fformiwla Gyllido 2025-26**

Nodwyd bod y Penaethiaid eisoes wedi derbyn copi o'r wybodaeth, ond byddai'n cael ei gylchredeg eto ar ôl y cyfarfod.

Nododd y Rheolwr Cyllid fod datganiad ysgrifenedig wedi bod gan LlC ar newidiadau i gyllid ysgolion o fis Mawrth 2026 (Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 (20 Tachwedd 2025) | LLYW.CYMRU). Byddai unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu hystyried gan y Fforwm yn ddiweddarach ac yn cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2027 ymlaen.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau am y gostyngiad yn nifer y prydau ysgol am ddim er gwaethaf gohebiaeth a sesiynau ymgysylltu, eglurodd y Rheolwr Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa. Ychwanegodd y byddai angen coladu data fel nifer y prydau ysgol am ddim fesul ysgol yn ystod ystyriaethau i unrhyw newidiadau i gyllid ysgolion.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Addysg bod gostyngiad wedi bod yn nifer y prydau ysgol am ddim ledled Cymru, er gwaethaf llawer o ymgyrchoedd marchnata. Estynnodd ei diolch i'r Swyddogion am y gwaith oedd yn gysylltiedig â pharatoi cyllidebau ysgolion ac am eu prydlondeb wrth ymateb i unrhyw ymholiadau.

Adleisiodd Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn ddiolch y Prif Swyddog Addysg i'r Swyddogion am eu gwaith a'u rhagweithioldeb.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

8. **Grantiau**
Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid wybodaeth am y prif grantiau a dderbyniwyd gan ysgolion ar gyfer 2025-26, sef cyfanswm o £5,992,011. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu i'r Fforwm yn dilyn y cyfarfod. Eglurodd fod y broses wedi newid gyda grantiau a bod Llywodraeth Cymru bellach yn penderfynu ar y swm i'w ddarparu i bob ysgol, oedd yn wahanol i'r gorffennol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg os dderbynniwyd cyllid grant ychwanegol ar gyfer addysg, ei fod yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i'r ysgolion.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Gwasanaeth Cyllid a Chaffael am eu gwaith diwyd. Esboniodd fod canran uchel o gyllideb yr awdurdod lleol wedi'i dyrannu i ysgolion; fodd bynnag, roedd yn ymwybodol o'r heriau oedd yn wynebu ysgolion. Ychwanegodd fod cyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

**CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

9. **Unrhyw fater arall**
Dim.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i holl staff yr ysgolion a'r Swyddogion am eu gwaith. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb a oedd yn bresennol.

| Rhif/ No | Ysgol / School | Cronfeydd wrth Gefn Gwirioneddol Ebrill 2022/ Actual Reserves April 2022 | Cronfeydd wrth Gefn Gwirioneddol Ebrill 2023/ Actual Reserves April 2023 | Cronfeydd wrth Gefn Gwirioneddol Ebrill 2024/ Actual Reserves April 2024 | Cronfeydd wrth Gefn Gwirioneddol Ebrill 2025/ Actual Reserves April 2025 | Cronfeydd wrth Gefn GWIRIONEDDOL 2026/ ACTUAL Reserves 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2281 | Aberaeron | 224,586 | 141,634 | 98,712 | 55,550 | 20,097 |
| 2291 | Llanarth | 50,079 | 41,113 | 44,028 | 59,964 | 34,081 |
| 2293 | Llanon | 44,403 | 43,745 | 51,866 | 44,472 | 35,038 |
| 2295 | Cei Newydd | 31,854 | 6,564 | 7,369 | 6,999 | 19,820 |
| 2298 | Talgarreg | 60,244 | 16,778 | -6,958 | -1,097 | 5,010 |
| 2299 | Ysgol Gymraeg | 202,620 | 47,174 | 2,411 | 74,447 | 96,315 |
| 2303 | Comins Coch | 166,405 | 128,689 | 112,661 | 89,199 | 47,512 |
| 2308 | Llanfarian | 96,061 | 78,441 | 49,261 | 30,938 | 34,155 |
| 2309 | Llanfihangel | 71,650 | 46,382 | 19,983 | -10,055 | -23,923 |
| 2310 | Llangwyryfon | 54,379 | 25,247 | 1,089 | -11,286 | -11,678 |
| 2311 | Llanilar | 106,398 | 86,877 | 64,012 | 55,061 | 46,174 |
| 2312 | Mynach | 59,246 | 45,928 | 38,166 | 41,113 | 82,812 |
| 2313 | Penllwyn | 69,946 | 49,462 | 44,145 | 17,261 | 6,540 |
| 2314 | Llwyn yr Eos | 228,530 | 82,954 | 4,971 | 52,086 | 48,886 |
| 2315 | Syr John Rhys | 77,658 | 58,176 | 65,368 | 52,894 | 50,334 |
| 2316 | Rhydypennau | 180,024 | 125,467 | 81,070 | 68,826 | 53,667 |
| 2317 | Talybont | 70,284 | 29,557 | 36,824 | 36,691 | 25,783 |
| 2319 | Aberporth | 113,687 | 23,608 | 80,973 | 113,588 | 89,792 |
| 2323 | Llechryd | 97,905 | 52,175 | 48,836 | 65,757 | 90,281 |
| 2324 | Penparc | 77,973 | 48,998 | 17,580 | 6,480 | 39,898 |
| 2353 | Pontrhydfendigaid | 94,731 | 61,975 | 24,418 | 65,535 | 51,184 |
| 2361 | Plascrug | 273,836 | 232,293 | 220,343 | 256,820 | 228,439 |
| 2362 | Craig yr Wylfa | 40,341 | 19,765 | 4,170 | 2,468 | 6,009 |
| 2363 | Penrhyncoch | 100,861 | 53,473 | 17,472 | 24,240 | 24,675 |
| 2366 | Y Dderi | 87,788 | 13,127 | 425 | 27,188 | 58,467 |
| 2367 | Cenarth | 79,385 | 21,713 | 3,288 | 31,156 | 93,695 |
| 2368 | Aberteifi | 365,389 | 281,656 | 244,256 | 181,747 | 97,303 |
| 2369 | Bro Siôn Cwilt | 153,063 | 92,417 | 42,933 | 20,427 | 2,821 |
| 2371 | T Llew Jones | 189,124 | 143,868 | 77,349 | 74,632 | 81,410 |
| 2372 | Rhos Helyg | 143,666 | 110,188 | 95,725 | 70,956 | 48,658 |
| 2374 | Dyffryn Aeron | | | | 85,224 | 117,670 |
| 3058 | Myfenydd | 106,540 | 50,556 | 57,172 | 53,515 | 70,949 |
| 3061 | Dyffryn Cledlyn | 142,941 | 60,667 | 7,678 | 29,460 | 50,667 |
| 3318 | Padarn Sant | 158,754 | 125,386 | 84,381 | 86,694 | 49,155 |
| | **CYFANSWM CYNRADD / TOTAL PRIMARY** | **4,020,351** | **2,446,054** | **1,741,976** | **1,858,950** | **1,771,696** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4042 | Aberaeron | 514,242 | 153,385 | 156,604 | 194,051 | *132,713* |
| 4044 | Aberteifi | 360,974 | 191,666 | 28,788 | 59,041 | 23,157 |
| 4047 | Penglais | 1,058,589 | 862,707 | 624,403 | 418,171 | 223,464 |
| 4048 | Penweddig | 467,511 | 242,618 | 166,041 | 88,365 | 95,030 |
| | **CYFANSWM UWCHRADD / TOTAL SECONDARY** | **2,401,316** | **1,450,376** | **975,835** | **759,628** | **474,364** |
| | | | | | | |
| 5500 | Bro Pedr | 455,841 | 148,336 | 59,072 | 280,812 | *260,933* |
| 5501 | Henry Richard | 422,867 | 306,983 | 308,470 | 350,868 | 240,948 |
| 5502 | Bro Teifi | 802,182 | 627,784 | 606,176 | 551,508 | 325,245 |
| | **CYFANSWM GYDOL OED / TOTAL ALL THROUGH** | **1,680,890** | **1,083,103** | **973,718** | **1,183,188** | **827,126** |
| | | | | | | |
| | **CYFANSWM / TOTAL** | **8,102,557** | **4,979,532** | **3,691,529** | **3,801,766** | **3,073,186** |

# PAPUR BRIFFIO AR GYFER FFORWM CYLLID YSGOLION

| | |
|---|---|
| Adroddiad: | Duncan Hall a Carys Fowles |
| Dyddiad: | 23/06/26 |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Diweddaru'r Fforwm Cyllid Ysgolion ar effaith y Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 newydd |

1. **<u>Cefndir</u>**

   O 1 Chwefror 2027 ymlaen, bydd Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau blaenorol.

   Bydd y Rheoliadau newydd yn berthnasol i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2027.

   Pwrpas y newidiadau yw darparu mwy o dryloywder, cymaroldeb a chysondeb yn y system gyllido ysgolion ledled Cymru.

   Bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud newidiadau i’r:

   - **Fformiwla Gyllido Ysgolion Dirprwyedig**
   - **Cynllun Ariannu Ysgolion**
   - **Datganiadau Cyllideb ac Alldro (Adran 52)**

2. **<u>Fformiwla Gyllido Ysgolion Dirprwyedig</u>**

   Bydd Awdurdodau Lleol yn parhau i bennu cyllid dirprwyedig i ysgolion trwy fformiwla y cytunwyd arnynt yn lleol. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn nodi os oes /nad oes rhaid cynnwys rhai ffactorau yn y fformiwla.

   <u>Newidiadau gofynnol:</u>

   - NI ellir dirprwyo Ardrethi Annomestig *(NNDR)* i ysgolion, bydd yn rhaid cadw'r gyllideb a'r costau ar gyfer hyn yn ganolog.

     *Ar hyn o bryd mae* Ardrethi Annomestig *wedi'i ddirprwyo i ysgolion, fodd bynnag, ni fydd symud y gyllideb a'r costau yn ganolog yn cael unrhyw effaith ariannol ar ysgolion unigol*

- Bydd angen llinell gyllideb benodol ar gyfer amddifadedd cymdeithasol, yn seiliedig ar naill ai data Prydau Ysgol Am Ddim neu Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ni ellir defnyddio'r cyllid i gefnogi darpariaeth ADY.

  *Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio data Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer darparu cyllideb ar gyfer grwpiau ymyrraeth mewn ysgolion*

- Gall ysgolion ffederal ffurfiol (2 neu fwy o ysgolion ar wahân sydd wedi'u ffedereiddio'n ffurfiol, felly mae ganddynt 1 Pennaeth ac 1 Corff Llywodraethu), os dymunant, uno'r cyllidebau ysgolion unigol i greu un gyllideb gyfunol ar gyfer yr ysgolion. Bydd cyllidebau unigol yn parhau i gael eu dyrannu ar gyfer pob ysgol, ond gall cyrff llywodraethu ddewis cyfuno'r rhain i leihau'r baich gweinyddol.

  *Yng Ngheredigion, dim ond un ffederasiwn ffurfiol sydd gennym – Penrhyncoch a Phenllwyn*

## 3. <u>Cynllun Ariannu Ysgolion</u>

Nid yw ein Cynllun presennol wedi'i ddiweddaru ers sawl blwyddyn, felly mae angen ei adolygu i adlewyrchu'r newidiadau yn y rheoliadau newydd, yn ogystal ag adnewyddu ar gyfer datblygiadau diweddar eraill.

<u>Darpariaeth ofynnol newydd:</u>

- Ysgolion ffederal – uno cyllidebau
- Nodi cyllidebau ysgolion nad ydynt yn cael eu dirprwyo i ysgolion, ond sy'n cael eu cadw'n ganolog.
- Trothwyon cyllidebau dros ben – nawr yn 5% o'r gyllideb (roedd trothwyon blaenorol yn werthoedd sefydlog - £50k fesul Ysgol Gynradd, a £100k fesul Ysgol Uwchradd).
- Nodi sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro'r defnydd o unrhyw warged sy'n fwy na 5%.
- Cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gyflwyno cynllun adfer diffyg i adennill unrhyw ddiffygion. Mae ein cynllun presennol yn cynnwys adran glir ar ddiffygion, ond mae angen gwella hyn trwy gynnwys datganiad sy'n nodi proses fwy ffurfiol mewn perthynas â chynllun adfer diffyg ac ati.

Mae darpariaethau ychwanegol sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y Cynllun newydd:

- Defnydd o gyfrifon Preifat (yn debygol o fod trwy eithriad yn unig)
- Defnydd o gardiau Credyd Corfforaethol y Cyngor
- Sicrhau aliniad â Rheolau Gweithdrefn Gontract newydd y Cyngor.
- Sicrhau aliniad ag unrhyw newidiadau yn dilyn yr adolygiad arfaethedig o Reoliadau Ariannol yn haf 2026.

4. **Datganiadau Cyllideb ac Alldro (Adran 52)**

Bydd templedi newydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cael eu hadrodd erbyn 31 Mawrth (Cyllideb), a 31 Gorffennaf (Alldro) y flwyddyn nesaf.

Pob dogfen; Bydd yn rhaid cyhoeddi fformiwla gyllido, Cynllun Ariannu Ysgolion, Datganiadau Cyllideb ac Alldro ar wefan y Cyngor, fel ei fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Bydd angen anfon copïau electronig at yr holl Benaethiaid a Llywodraethwyr.

5. **Casgliad a'r Camau Nesaf**

Mae nifer o ddyddiadau cau allweddol i'w cwrdd i sicrhau bod ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr ar yr agweddau perthnasol, yn ogystal â dilyn y llwybrau llywodraethu arferol drwy'r Fforwm Cyllid Ysgolion, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r gymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet – i gyd i'w gwblhau ac yn eu lle erbyn mis Chwefror 2027.

Yr amserlen amlinellol gyfredol yw:

| | Camau Allweddol | Dyddiad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| 1. | Mynychu **Cyfarfod Cyflwyno Cenedlaethol Llywodraeth Cymru** | 13/05/26 | JD / CF / LH |
| 2. | **Papur briffio** i'r Grŵp Arweiniol | Mehefin | DH |
| 3. | **Papur briffio** i Fforwm Cyllid Ysgolion | 23/06/26 | DH / CF |
| 4. | **Sesiwn Hyfforddi / Gweithdy** Swyddogion Cyllid Ysgolion Ceredigion gyda Llywodraeth Cymru | 07/07/26 | CF /JD |
| 5. | Ymgymryd â gwaith ar y newidiadau sydd eu hangen | Gorffennaf - Medi | CF / LH |
| 6. | Cyflwyno cynigion drafft i'w trafod (cyn ymgynghori) i'r **Fforwm Cyllid Ysgolion** | 15/10/26 | DH / EJ / CF |
| 7. | Dechrau Ymgynghoriad ffurfiol **gyda Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr** (rhagdybiwyd fod cyfnod ymgynghori 6 wythnos) | Canol Hydref i ddiwedd Tachwedd | DH / EJ / CF |
| 8. | Adrodd ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl i'r **Fforwm Cyllid Ysgolion** | Dechrau Rhagfyr (dyddiad i'w gadarnhau) | DH / EJ / CF |
| 9. | Cyflwyno cynigion drafft ac adborth ymgynghori i'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu** (Dyddiadau cyfredol a drefnwyd yw 12/11/26 ac yna 04/02/27) | Cyfarfod ychwanegol canol Rhagfyr neu ddechrau Ionawr? | DH / EJ |
| 10. | Cyflwyno cynigion terfynol i'w cymeradwyo i'r **Cabinet** (sylwer: gall dyddiadau'r Cabinet newid unwaith y bydd amserlen y Gyllideb 27/28 wedi'i gadarnhau) | 05/01/27 neu 16/02/27 | DH / EJ |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/ Argymhellion** | **1. Nodi effaith Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 newydd gan gynnwys y rhaglen waith gysylltiedig sy'n ofynnol a'r amserlen dan sylw.** |